

Tasg 3

Paraffest

Gŵyl leol

Gwyliau lleol

Mae llawer o ardaloedd yn trefnu eu gŵyl eu hunain neu ddiwrnod o hwyl fel bod pobl yr ardal – ac ymwelwyr – yn dod at ei gilydd i fwynhau. Weithiau, maen nhw'n codi arian at achos da ac weithiau mae thema arbennig i'r ŵyl, fel gŵyl bwyd y môr neu ŵyl cyrri ac ati. Mae cynnal gŵyl yn ffordd dda o farchnata pethau hefyd, e.e. mae gŵyl fwyd yn marchnata bwyd Cymru.

Mewn grŵp, rydych chi'n mynd i drefnu gŵyl arbennig ar gyfer eich ardal chi. Trafodwch:

- pa fath o ŵyl
- ble
- pryd – dyddiad ac amser
- beth yn union fydd yn digwydd
- y pris mynediad
- fydd bwyd a diod – os bydd, pa fath?
- oes angen cysylltu â busnesau'r ardal i ofyn am help
- unrhyw wybodaeth arall.

Hefyd, meddyliwch am enw da ar gyfer yr ŵyl.

a. Gwnewch ddiagram i gofnodi eich syniadau, e.e. diagram gwe pry cop / corryn neu ddiagram tebyg.

b. Cymharwch eich syniadau chi â syniadau grwpiau eraill. Gan bwy mae'r syniad gorau, tybed?

c. Gwnewch boster yn perswadio pobl i ddod i gymryd rhan yn yr hwyl.

neu

Ysgrifennwch ddarn am yr ŵyl ar gyfer y papur bro lleol neu ar gyfer gwefan yr ysgol.